

# Exagamglogene autotemcel i drin beta-thalasemia sy'n dibynnu ar drallwysiad mewn pobl 12 oed a throsodd

11 Medi 2024

Mae Exagamglogene autotemcel (exa\_cel; Casgevy) ar gael yn ystod y cyfnod [mynediad a reolir](#). Mae'n driniaeth bosibl ar gyfer beta-thalasemia sy'n dibynnu ar drallwysiad mewn pobl 12 oed a throsodd:

- pan fydd trawsblaniad bôn-gelloedd gwaedfagol (trawsblaniad gwaed a mêt) yn addas, ond
- nad oes rhoddwr bôn-gelloedd gwaedfagol cysylltiedig â lewcocyt dynol y mae ei antigenau yn cyfateb ar gael.

Mae rhagor o dystiolaeth ar exa\_cel yn cael ei chasglu. Ar ôl hyn, bydd NICE yn penderfynu p'un a fydd yn argymhell y dylid defnyddio exa\_cel ar y GIG ac yn diweddarau'r canllawiau. Bydd ar gael drwy fynediad a reolir tan hynny.

## A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os byddwch yn dymuno. Gweler [ein tudalen we ar wneud penderfyniadau am eich gofal](#).

## Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-ffeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os na fyddaf am gael y driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

## Gwybodaeth a chymorth

Gall [tudalen we y GIG ar thalasemia](#) fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- [Anthony Nolan](#), 0303 303 0303
- [Cymdeithas Thalasia y DU](#), 020 8882 0011

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich tîm [Healthwatch](#) lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

© **NICE 2026**. All rights reserved. Subject to [Notice of rights](#).

ISBN: 978-1-4731-9469-4